



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



iCoDaCo, Dawns Gwyn Emberton (Illun: Cheung Chi-Wai)

Hau Hedyn y Dyfodol

Mai 2019



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®



Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

Cyngor Celfyddydau Cymru yn lansio ei raglen, *Hau Hedyn y Dyfodol*

Rhaglen ddatblygu yw *Hau Hedyn y Dyfodol* sy'n galluogi artistiaid a chynhyrchwyr newydd a sefydledig i gymryd gwaith am y tro cyntaf i Wyl Ymylol Caeredin. Bydd y rhaglen yn cydreddeg â menter arddangos sydd wedi'i churadu Cyngor Celfyddydau Cymru, Cymru yng Nghaeredin.

Gŵyl gelfyddydol fwyaf y byd yw'r Wyl Ymylol. Mae Cymru yng Nghaeredin yn gyfle arddangos sy'n cynnig y gorau o theatr, dawns a syrcau Cymru.

Mae ein harlwy artistig o safon fyd-eang ac mae iddi ansawdd unigryw i Gymru sy'n apelio drwy'r byd. Mae'r rhaglen yma'n cynnig cyfle i'n artistiaid a'n cynhyrchwyr sy'n datblygu'r gwaith i fynd ag ef i'r wyl am y tro cyntaf.

Ein cynllun corfforaethol newydd, *Er Budd Pawb*, a'n strategaeth ryngwladol, *Yn bont o'n bro i'r byd*, sy'n ysbrydoli Cymru yng Nghaeredin. Bydd y rhain hefyd yn dylanwadu ar ddewis ymgeiswyr i'r rhaglen.

Mae'r llais unigol a mynegiant personol Cymru o'r pwys mwyaf inni. Rydym ni am gadw amrywiaeth, cydraddoldeb a thegwch wrth wraidd ein gwaith ac rydym ni hefyd wedi ymrwmo i ragoriaeth wrth gefnogi celfyddyd fentrus, arloesol a herfeiddiol.

Rydym ni'n deall pa mor anodd yw cymryd gwaith i lwyfan o'r fath a phwysigrwydd ymbaratoi gan gynnwys cydnabod eich parodrwydd i arddangos a nodi eich marchnadoedd rhyngwladol. Bydd y rhaglen yn darparu cymorth rhwydweithio gyda chyfle i weld gwaith o safon a phecyn wybodaeth am fynd â gwaith i'r Wyl.

I gael yr effaith fwyaf a'r gwerth gorau o'r rhaglen, byddwn ni'n cydweithio â'n hasiantaeth ryngwladol fewnol, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, a'n partneriaid, Cymdeithas Gŵyl Ymylol Caeredin.

I wneud cais i'r rhaglen, anfonwch gynnig cryf a rhesymeg gref dros pam y dylech chi gael eich dewis.

Bydd y broses ddethol yn seiliedig ar y meini prawf hyn:

- rhaid bod gennych ddarn o waith sy'n cael ei ddatblygu yr hoffech ei gymryd i'r Wyl
- rhaid bod â record dda yn eich maes a dangos eich parodrwydd i fynd â gwaith yno
- dangos yn glir beth yw eich uchelgais rhyngwladol - oes gennych farchnadoedd rhyngwladol posibl mewn golwg?
- fyddwch chi'n gallu nodi'n glir eich dewis feisydd am gymorth?

Mae gan y rhaglen arian cyfyngedig i dalu am garfan o artistiaid i ymuno â ni am yr wythnos arddangos, **19– 23 Awst 2019**. Rhaid ichi fod ar gael yn ystod yr wythnos yma.

Bydd y Cyngor yn talu am eich llety yn ystod yr wythnos arddangos. Hefyd rydym ni'n cynnig grant o £900 i'n hartistiaid a'n cynhyrchwyr i dalu am gludiant, *per diems* (uchafswm o £250 am 5 diwrnod) a thocynnau i rai perfformiadau. Bydd y telerau a'r amodau eraill am wariant ar gael ichi pan fydd y grant yn cael ei ddyfarnu.

Cyflwynwch eich cynnig i Maggie.Dunning@celf.cymru gyda'r teitl, *Hau Hedyn y Dyfodol*. Rhaid i'r cais cyfan beidio â bod yn fwy na 500 gair gyda chyllideb sy'n cynnwys eich cludiant, *per diems* a thocynnau i berfformiadau.

Y dyddiad cau yw **dydd Gwener, 17 Mai 2019**.

Bydd panel mewnol yn ystyried eich cynnig ac wedyn cysylltu â chi erbyn **dydd Mawrth 30 Mai 2019**.

Rhan o'r rhaglen fydd i'n hymgeiswyr llwyddiannus werthuso eu hymweliad â'r Wyl. Rhaid iddynt gynnal ymarfer gwerthuso sy'n cloriannu eu hymweliad a nodi eu dysgu, eu myfyrdodau a'u casgliadau. Byddwn ni hefyd yn gofyn am fanylion o'r costau terfynol. Byddwch chi'n cael templed am hyn ar ôl ichi gael eich derbyn.

Pwy all wneud cais?

Bydd cwmnïau cynhyrchu proffesiynol a gweithwyr creadigol yn gallu gwneud cais. Rhaid ichi allu profi bod eich cwmni neu'ch ymarfer yng Nghymru neu eich bod wedi gweithio'n helaeth yma.

Rhaid bod gennych:

- Hanes da o ddarparu gweithgarwch celfyddydol ar gyfer cynulleidfaoedd neu gyfranogwyr
- Polisi cyfle cyfartal sydd wedi cael ei adolygu gan eich corff llywodraethu yn y tair blynedd diwethaf, ac sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol. Os ydych chi'n unigolyn, rhaid ichi ddangos fod gennych ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfle cyfartal a bod eich ymarfer yn adlewyrchu hyn
- Cyfrif banc yn enw eich sefydliad sy'n gofyn am o leiaf ddau berson iawdurdodi trafodion ("llofnodwyr y cyfrif"). Mae "trafodion" yn meddwl tynnu, trosglwyddo neu dalu arian gan gynnwys llofnodi sicciau a defnyddio cyfrif banc dros y we. Os ydych chi'n unigolyn, rhaid ichi gael cyfrif banc yn eich enw eich hun. Ni fyddwn ni'n derbyn cyfrifon cymdeithas adeiladu sy'n gweithredu gyda llyfr pas yn unig
- Os ydych chi'n unigolyn, rhaid ichi fod dros 18 oed ac yn byw yng Nghymru neu wedi gweithio'n helaeth yng Nghymru
- Os yw eich prosiect yn golygu gweithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion agored i niwed, rhaid ichi hefyd feddu ar bolisi diogelu/amddiffyn plant sydd hefyd wedi'i adolygu gan eich corff llywodraethu yn y tair blynedd diwethaf, ac sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol. Rhaid i'r polisi arddangos bod materion diogelu yn cael eu hadlewyrchu yn eich gwaith a'ch cynllunio o ddydd i ddydd.

Ni fyddwch chi'n gallu gwneud cais os ydych chi wedi methu â thalu'n ôl unrhyw ddyled i'r Cyngor.

Byddwn ni'n gofyn ichi gadarnhau bod eich sefydliad yn bodloni'r gofynion hyn yn y broses ddethol.

In sefydliadau, nodyn am lywodraethu

Rydym ni'n cymryd y cyfrifoldeb o ddsbarthu arian cyhoeddus o ddifrif, a dyna pam mae'r ffordd rydych chi'n rhedeg eich sefydliad yn bwysig inni. Mae angen inni sicrhau bod eich sefydliad wedi cael ei sefydlu'n briodol ac yn gallu rheoli grant yn briodol. Ni fyddwn ni'n dyfarnu grant os byddwn ni'n cael gwybod am berygl na fydd arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda. Mae sicrhau eich bod yn bodloni ein gofynion cymhwysedd yn un ffordd o wneud hyn. Rhaid ichi gyflwyno copi o'ch dogfen lywodraethol gyda'ch cais. Mae hyn yn ein helpu i wybod a ydych chi'n gymwys ac efallai y bydd o gymorth wrth inni asesu eich cais.

Hefyd rhaid ichi gyflwyno tystiolaeth i ddangos bod gennych gyfrif banc yn enw eich sefydliad sy'n gofyn am o leiaf ddau berson i awdurdodi trafodion. Os bydd eich cynnig yn llwyddo byddwn ni'n gwirio'r wybodaeth drwy ofyn am ragor o fanylion am eich cyfrif. Ni fyddwn ni'n gallu gwneud unrhyw daliadau tan inni dderbyn a gwirio'r wybodaeth yma.

Angen cysylltu?

Os bydd gennych unrhyw broblemau technegol gyda'ch cynnig, cysylltwch â'n tîm grantiau a gwybodaeth:

grantiau@celf.cymru

Am ragor o wybodaeth am y rhaglen, cysylltwch â: maggie.dunning@celf.cymru

Dyma sut i gysylltu â ni:

- e-bostiwch datblygiad@celf.cymru
- ffoniwch 0845 8734 900 (cyfraddau lleol ond byddai rhai symudol yn gallu amrywio) neu 029 2044 1300

9am-5pm Llun-lau

9am-4.30pm Gwener

Trydar: @Celf_Cymru

Gwefan: celf.cymru

Ac mae rhagor o wybodaeth am gysylltu â ni [yma](#)